

TRYCHINEB GRESFFORDD



Yn ystod yr oriau mân ar 22 Medi 1934, bu farw 266 o ddynion a bechgyn ar ôl ffrwydriad ym Mhwll Glo Gresffordd, ger Wrecsam, Gogledd Cymru. Dim ond 6 dyn a ddaeth allan yn fyw. Dyma un o'r trychinebau glofaol gwaethaf a welwyd erioed ym Mhrydain.

Roedd y pwll glo wedi colli arian yn ystod y flwyddyn flaenorol, felly dewisodd y rheolwr newydd, William Bonsall, beidio â rhoi mesurau diogelwch ar waith er mwyn arbed arian. Ni ddilynwyd rheoliadau diogelwch, nid oedd y siafftiau wedi'u hawyru'n ddigonol, nid oedd y twneli wedi'u cynnal yn ddigonol, ac nid oedd digon o lwybrau dianc ar gael.

Ar ôl y ffrwydriad, dioddefodd y teuluoedd drallod mawr pan benderfynodd yr Arolygiaeth Mwyngloddiau rwystro timau achub rhag mynd i mewn i'r pwll glo i nôl cyrff eu hanwyliaid. Roedd hyn hefyd yn golygu bod tystiolaeth hanfodol ynglŷn ag achos y ffrwydriad wedi cael ei cholli.

Roedd nifer o'r glowyr newydd gael tâl ac roeddynt yn cario'u cyflogau pan gawsant eu lladd. Cafodd arian ei dynnu o gyflogau'r gweithwyr a oroesodd y drychineb gan nad oeddynt wedi cwblhau eu sifftiau ar y diwrnod hwnnw. Ni chafodd y teuluoedd unrhyw ad-daliad a bu'n rhaid i nifer ohonynt ddibynnu ar elusennau a thaliadau lles i oroesi.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
wrexhamminersproject.co.uk

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Yn yr ymchwiliad i'r drychineb, cyfaddefodd William Idris Cuffin, syrfêwr cynorthwyol, ei fod wedi cofnodi mesuriadau ffug ynglŷn â'r aer. Honnodd fod William Bonsall wedi dweud wrtho am roi'r gorau i fesur lefel y nwy ym mis Mehefin 1934, a'i fod wedi gofyn iddo ddweud celwydd yn yr ymchwiliad.

Roedd gan berchnogion y pwll glo ddigon o arian i fforddio cyflogi cyfreithwyr o'r radd flaenaf ar gyfer yr ymchwiliad. Ond pe na bai Syr Stafford Cripps AS wedi cytuno i ddarparu ei wasanaethau'n rhad ac am ddim i'r glowyr a'u teuluoedd, ni fyddent hwy wedi cael cynrychiolaeth gyfreithiol o gwbl.

Ni fu modd i'r ymchwiliad ddod i benderfyniad gan fod archwilwyr a swyddogion y llywodraeth wedi gwrthod gadael i'r siafft gael ei harchwilio'n llwyr. Ni fu modd penderfynu ar un achos pendant dros y ffrwydriad, felly ni fu modd rhoi atebion i'r teuluoedd.

Ni chafodd neb ei ddwyn i gyfrif am farwolaethau'r glowyr. Cafwyd William Bonsall yn euog o gadw cofnodion ffug, ond yr unig beth a gafodd oedd dirwy o £140.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

“Mae effaith Trychineb Gresffordd – a'r anghyflawnder a'r celu a ddilynodd – yn parhau i daro tant hyd heddiw. Dioddefodd mamau, tadau, brodyr, chwiorydd, gwragedd a phlant straen eithriadol, a gwaethyggwyd hynny gan y diffyg cydymdeimlad a ddangoswyd gan berchnogion y pwll glo”

Michael Hett, Cyn-löwr ac Ymddiriedolwr Prosiect Glowyr Wrecsam